

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

27 Ebrill 2016

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Mr A Archer, Mr D Ellis, y Cynghorydd P Harries, y
Cynghorydd S Hudson, Mrs G Hayward, y Cynghorydd L
Jenkins, y Cynghorydd RM Lewis, y Cynghorydd PJ
Morgan, y Cynghorydd R Owens, y Cynghorydd D Rees Mr
AE Sangster a'r Cynghorydd M Williams.

Roedd Mrs E Williams, a oedd yn cymryd rhan yng nghynllun mentora'r
Awdurdod, hefyd yn bresennol.

[Cyrhaeddodd Ms C Gwyther yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad
ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol – Rhwymedigaethau Cynllunio
(gweler Atodiad 6)]

(Swyddfa NPA, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.30am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd
ML Evans, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgelu Buddiant

Datgelwyd buddiant personol, ond nid un niweidiol, gan Mr AE Sangster
yn achos y drafodaeth ynghylch Adnewyddu Prydles Sgowtiaid Sain
Ffraid (*gweler Cofnod 4*). Arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran
yn y drafodaeth.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2016 i'w
cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2016.

*[Datgelodd Mr AE Sangster fuddiant yn y mater a ganlyn ac ni chymerodd
ran yn y drafodaeth.]*

4. Materion sy'n codi o'r cofnodion:

a) Adnewyddu Prydles Sgowtiaid Sain Ffraid (Cofnod 11)

Daeth llythyr arall i law gan Gyngor Sir Penfro yn ymateb i'r penderfyniad
a wnaed yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod, ac roedd wedi'i
ddosbarthu i'r Aelodau. Gofynnodd y Prif Weithredwr a oeddynt am roi'r
mater ar agenda cyfarfod nesaf yr Awdurdod i'w drafod ymhellach.
Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i drafod cytundeb gyda'r Sgowtiaid, ond



roeddynt o'r farn y gellid gwneud hynny fel rhan o'r broses gyfreithiol y cytunwyd arni yn y penderfyniad a wnaed ar 16 Mawrth. Felly, penderfynwyd parhau â'r broses y cytunwyd arni eisoes i ofyn i'r swyddogion drafod â'r Sgowntiaid a llunio adroddiad ar gyfer cyfarfod y dyfodol ynghylch unrhyw gytundeb.

PENDERFYNWYD rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am adnewyddu prydles Sgowntiaid Sain Ffraid mewn cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

5. Y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Adroddiad am Gyfarfod

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016.

6. Y Cynllun Datblygu Lleol: Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio

Soniwyd fod Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael eu paratoi ar y cyd â Chyngor Sir Penfro i gael cyfraniadau datblygwyr drwy rwymedigaethau cyfreithiol er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti gan wasanaethau a seilwaith lleol i ddiwallu'r galwadau ychwanegol yn sgil datblygiadau newydd. Pan fyddant wedi'u mabwysiadu ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus, byddai'r Canllawiau Cynllunio atodol yn disodli'r rhai a fabwysiadwyd yn flaenorol gan y naill Awdurdod a'r llall.

Roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft yn codi'r trothwy ar gyfer datblygiadau y gellid hawlio cyfraniadau penodol ar eu cyfer, ond nid oedd y ddogfen yn cynnwys cyfraniadau gwastraff ac ailgylchu. Roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft yn pennu uchafswm y cyfraniadau ar gyfer datblygiadau, gan ganiatáu ar gyfer trafodaeth yn achos cynigion unigol. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r gwaith o brofi hyfywedd safleoedd unigol yn parhau, i sicrhau nad oedd gofynion Rhwymedigaeth Gynllunio yn mygu neu'n rhwystro datblygiad i raddau afresymol.

Gofynnwyd am gymeradwyaeth i ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft am wyth wythnos. Byddai unrhyw ymatebion yn cael eu rhoi gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w hystyried.

Roedd yr Aelodau, ar y cyfan, yn croesawu'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft, yn enwedig o ystyried eu bod wedi'u llunio ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, gan fod hynny'n sicrhau cysondeb ar draws y sir. Cytunwyd â'r penderfyniad i beidio â mabwysiadu'r Ardoll Seilwaith Gymunedol ar hyn o bryd. Gofynnwyd i swyddogion sicrhau bod y rhai a oedd â buddiant economaidd yn cael cyfle i fynegi sylwadau am y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft, a gofynnwyd hefyd am eu cysylltiad â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cytunodd y swyddogion i fwrw golwg ar y rhestr bostio i sicrhau yr ymgynghorir â sefydliadau priodol, ac i gynnwys cyfeiriad yn y llythyr a ddsbarthwyd gyda'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cyfeirio at ei gysylltiad â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Holodd yr Aelodau hefyd am allu clybiau chwaraeon i gael cyfraniadau manau agored; dyrannu cyfraniadau ar gyfer cyfleusterau trafniadaeth gynaliadwy, gan eu bod yn bryderus nad oedd y rheini'n cael eu gwario mewn ffyrdd a oedd yn gydnaws â chymeriad y Parc Cenedlaethol; a'r posibilrwydd o sefydlu cronfa goed i allu plannu coedlannau yn hytrach na choed unigol. Cytunodd y swyddogion i ystyried y pwyntiau hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac adrodd yn ôl.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft Rhwymedigaethau Cynllunio i ymgynghori yn eu cylch.

7. Y Cynllun Datblygu Lleol: Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol

Soniwyd mai dynodiad geoamrywiaeth anstatudol oedd y Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS). Roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn helpu i nodi a fyddai datblygiad yn cael effaith niweidiol ar y prif nodweddion o bwys o fewn RIGS. Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i ychwanegu safle yn Rhosyfelin at y canllawiau uchod a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Hydref 2011.

Dywedodd un Aelod, er bod daeareg Rhosyfelin yn ddiddorol, bod ei hanes yn fwy diddorol byth ac roedd yn pryderu y byddai dynodi'r safle yn RIGS yn effeithio ar y gallu i wneud ymchwiliadau archaeolegol o'r safle yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Cyfeiriad nad oedd yn credu y byddai'r dynodiad yn effeithio ar ymchwiliadau o'r fath yn y dyfodol, ond cytunodd i gadarnhau hynny fel rhan o'r broses ymgynghori.

PENDERFYNWYD:

- a) Bod y datganiad o ddiddordeb ar gyfer Rhosyfelin yn cael ei gymeradwyo i'w gynnwys mewn Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol a'i fod yn destun ymgynghoriad;
- b) Bod Pennaeth Cyfeiriad y Parc yn cael ei hawdurdodi i gynnwys y map a oedd yn dynodi'r safle'n ffurfiol cyn cynnal ymgynghoriad ar y canllawiau diweddaraf.

8. Trosglwyddiadau dros £20,000 ym Mlwyddyn Ariannol 2015/16

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod angen cymeradwyaeth benodol y Prif Swyddog Cyllid a'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol i drosglwyddo dros £20,000 yn unol â pharagraff 42 o Safonau Ariannol yr Awdurdod. Felly, roedd rhestr o drosglwyddiadau o'r fath yn 2015/16 ynghlwm wrth yr adroddiad er mwyn eu cymeradwyo.



PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhestr o drosglwyddiadau dros £20,000 yn 2015/16 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad

9. Cymeradwyaethau Grant yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol (Diwygiwyd 2012)

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod angen cymeradwyaeth gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol (2012), ar gyfer talu cyfanswm gwerth grantiau a nawdd o dan unrhyw un cytundeb dros £10,000. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol roedd dau daliad yn y categori hwnnw: taliad o £18,026 i Fforwm Arfordirol Sir Benfro i helpu i integreiddio a rheoli gweithgareddau arfordirol, ac yn ail, taliad o tua £72,000 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro. Roedd rhagor o fanylion am y ddau brosiect hyn yn yr adroddiad.

Gofynnodd un Aelod a allai adroddiad am ganlyniadau'r prosiectau hyn gael eu rhoi gerbron cyfarfod o'r awdurdod neu ei bwyllgorau yn y dyfodol, a chytunodd y swyddogion i ddarparu hyn wedi iddynt gael eu cwblhau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau i Fforwm Arfordirol Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro.

10. APCAP a hynt gosodiadau yni adnewyddadwy

Dywedodd y Swyddog Prosiectau Adeiladu, yn wyneb cyfrifoldeb yr Awdurdod i ddarparu adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni ac i gwrdd â thargedau, bod y rhaglen 'Gwyrddu Adeiladau'r Parc' wedi'i lansio tua phedair blynedd yn ôl. Roedd tri cham i'r rhaglen: 1) Effeithlonrwydd y Gyntaf - sefydlu system fonitro gadarn o ddefnyddio ynni i bennu data llinell sylfaen, cynnal Archwiliadau Amgylcheddol ar bob adeilad i dynnu sylw at fannau dwys o ran y defnydd o ynni ac ymchwilio i ddulliau o wella/arbed ynni. 2) Enillion Cyflym – newid lampau, addasu offer rheoli, codi ymwybyddiaeth staff ac ati. 3) Gosod technolegau ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n bosibl.

Dangosodd yr adroddiad, ers i fonitro cynhwysfawr ddechrau yn 2012, fod mesurau a gyflwynwyd i'r adeiladau wedi arwain at ostyngiad o tua 20% mewn trydan dros y pedair blynedd. Roedd Parc Llanion, yn enwedig, wedi cael Tystysgrif Ynni a oedd yn dangos Graddfa B (A yw'r mwyaf effeithlon a G yw'r lleiaf effeithlon). Roedd hynny'n rhyfeddol gan mai ar ddechrau'r 1900au y codwyd yr adeilad.

Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi edrych ar y posibilrwydd o osod technolegau cynaliadwy yn ei adeiladau. Roedd bwyleri biomás wedi'u gosod ym Mharc Llanion ac yng Nghastell Henllys ac roedd paneli PV ym Mharc Llanion ac Oriol y Parc. Hefyd, ystyriwyd gosod nifer o baneli PV ar y ddaear ar Faes Awyr Tyddewi, ond roedd y swyddogion o'r farn y



byddai effeithiau negyddol y syniad yn niweidio amcanion y Parc ac yn groes i'w brif ddyletswyddau, ac felly rhoddwyd y gorau i'r cynllun. Yn yr un modd, ar ôl adolygu safleoedd posibl ar gyfer codi tyrbinau gwynt, nid edrychwyd yn fanwl ar y dechnoleg hon oherwydd effaith a sensitifrwyd tyrbinau yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd man cyflenwi cerbydau trydan wedi'i osod yn Oriel y Parc, ac roedd bwriad i osod man cyflenwi trydan arall ym Mharc Llanion yn y dyfodol agos.

Roedd yr Aelodau'n falch o'r cynnydd a wnaed, yn enwedig o ran adeilad Parc Llanion. Roeddynt yr un mor falch o'r penderfyniad i beidio â gosod paneli PV ar faes awyr Tyddewi, gan gytuno y byddai'r effaith yn ormod. O ran y man cyflenwi trydan, holwyd am y gost o'i ddefnyddio. Atebodd y swyddog mai bach iawn oedd y gost o lenwi car â thrydan, ac roedd yr Awdurdod felly ond yn gofyn am arian rhodd yn unig. Awgrymodd yr Aelodau y byddai'r llwyddiannau o ran arbed ynni yn stori dda i'w hysbysebu, a chytunodd y swyddogion i drefnu datganiad i'r wasg.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chadarnhau eu bod yn cytuno â'r dull o weithredu hyd yn hyn.

11. Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynulliad 2014-15

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio fod Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2016, wedi llunio adroddiad cronus o'r holl ddata ystadegol a gasglwyd gan bob un o'r 25 awdurdod cynllunio yng Nghymru. Diben yr adroddiad oedd rhoi darlun clir o gyflwr cynllunio yng Nghymru, nodi ymhle yr oedd y safonau gwasanaeth yn is na'r lefelau derbyniol, nodi arferion da a rhannu syniadau da ac annog awdurdodau cynllunio lleol i wella'u perfformiad.

Roedd yr adroddiad wedi'i ddarparu i'r Aelodau, ac roedd yn cynnwys nodiadau i ddangos y glir berfformiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Ar y cyfan, roedd y cyfraddau uwchlaw'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o feysydd targed. Roedd yr Awdurdod wedi perfformio'n gyson, gan ymdrin ag 85.7% o'r holl geisiadau o fewn y cyfnod a oedd yn ofynnol. Lle cafodd ceisiadau eu gwrthod, ac yna'n destun apêl, roedd 76.9% o'r apeliadau yn cael eu gwrthod.

O ran gwasanaethau i gwsmeriaid, roedd gallu aelodau'r cyhoedd i annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r swyddog ar ddyletswydd a ddarparwyd yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y swyddogion o'r farn bod dau faes i fynd i'r afael ag ef. Un o'r rheini oedd y prinder tir ar gyfer codi tai, a oedd yn is na'r targed o bum mlynedd – roedd hyn yn cael ei fonitro a byddai'n cael ei ailgyfrif fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Lleol. Yr ail faes oedd mai dim ond yn rhannol y gellid cael mynediad i'r broses gynllunio ar-lein. Roedd



cyfyngiadau'r wefan wedi'u cydnabod ers tro, ac roedd yr Awdurdod ar hyn o bryd yn adolygu'r holl opsiynau ar gyfer ei gwella.

Llongyfarchwyd y swyddogion gan yr Aelodau ar y canlyniadau ardderchog, a chydabuwyd yr holl waith caled o'u cyflawni. Gobeithiwyd hefyd y gellid rhannu'r arferion da ymhlith yr Awdurdodau. Awgrymwyd hefyd fod hon yn stori arall a ddylai gael mwy o gyhoeddusrwydd, yn enwedig ymhlith Cynghorau Cymuned, a oedd yn aml iawn yn feirniadol o'r Awdurdod.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr, fel rhan o'i gwaith gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, y byddai'n edrych ar ysgrifennu adroddiadau yn awdurdodau lleol Cymru i weld a oedd modd arbed amser swyddogion yn hyn o beth. Felly, roedd yn awyddus i gael barn yr Aelodau am yr adroddiadau a gyflwynwyd i Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Awdurdod. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn fodlon â lefel y manylion yn yr adroddiadau yr oeddynt yn eu cael, ond ychwanegwyd nad oedd angen darllen cynnwys yr adroddiadau yn uchel yn y cyfarfodydd.

NODWYD.

